

Wythnos 1 *Beth yw Rhyddid?*

Yn yr wythnos gyntaf hon byddwn yn:

- Gofyn beth yw ystyr ‘rhyddid’ mewn bywyd beunyddiol a chymdeithas heddiw;
- Gofyn beth yw ‘rhyddid Cristnogol’ a sut y mae’n wahanol;
- Edrych ar rai darnau o’r Beibl i weld sut y maent hwy yn ymdrin â ‘rhyddid’;
- Gofyn ai mater o fod ‘yn rhydd i ddewis’ ydyw;
- Gosod rhywbeth i ni ein hunain ei wneud yn awr ac yn yr wythnosau sy’n dod.

YMHLE I DDECHRAU?

Pryd bynnag y dechreuwn sôn am ‘ryddid’ byddwn yn sylweddoli’n fuan iawn y gallwn fod yn sôn am bethau tra gwahanol! I baratoi at y cyfarfod hwn, byddai’n syniad da i un neu fwy o aelodau’r grŵp edrych drwy bapurau newydd a chylchgronau cyfredol neu ddiweddar a thanlinellu pob enghraifft o’r geiriau ‘rhyddid’, ‘rhydd’ a ‘rhyddhau’. Gellir wedyn basio’r darnau a danlinellwyd o gwmpas y grŵp neu eu harddangos.

Beth y maent yn ei ddweud wrthym am werth ‘rhyddid’ yn ein cymdeithas a’n byd heddiw?

Neu, a oes yna enghreifftiau eraill yn y newyddion ar hyn o bryd o bobl neu gymunedau sy’n ddarlun o ryddid, neu’n ymdrechu am ryddid neu a amddifedir o ryddid? Beth yw’r ‘pynciau mawr’ ynglŷn â rhyddid ar hyn o bryd?

Dyma rai diffiniadau geiriadur o ‘ryddid’:

Y gallu neu’r hawl i weithredu, siarad a meddwl fel y mynnoch heb unrhyw rwystr. Peidio â bod yn ddarostyngedig i lywodraeth estron neu ormesol.

Y cyflwr o beidio â bod mewn carchar nac yn gaethweision.

Y cyflwr o fod heb eich cyfyngu’n gorfforol ac yn medru symud yn rhwydd.

(Rhyddid rhag): Cyflwr lle nad oes dim byd annymunol yn eich darostwng nac yn effeithio arnoch.

Y gallu i benderfynu yn ôl eich ewyllys eich hun; bod yn annibynnol ar ffawd neu reidrwydd.

(Rhyddid dinas) hawl neu fraint arbennig a roddir i rywun, yn enwedig fel anrhydedd i ffigur cyhoeddus amlwg, yn caniatáu dinasyddiaeth gyflawn mewn dinas arbennig.

Medru defnyddio rhywbeth yn ddirwystr.

Bod yn eofn ac yn agored mewn lleferydd ac ymddygiad.

Pe bai gennych ddewis, pa dair o’r ystyron hyn fyddai bwysicaf i chwi’n bersonol, a pham?

Y gwir amdani, yn enwedig yn ein byd ‘Gorllewinol’, yw bod ‘rhyddid’ yn gymaint rhan o’n iaith feunyddiol nes ein bod yn tueddu i’w gymryd yn ganiataol ac anghofio mai dim ond yn ddiweddar y magodd lawer o’i ystyron. I raddau helaeth, dim ond o ganlyniad i erchyllterau gormes a rhyfeloedd byd-eang yr ugeinfed ganrif y daeth pobl i sylweddoli na ellir cymryd ‘rhyddid’ yn ganiataol.

Ar 6 Ionawr 1941 gwnaeth Arlywydd yr Unol Daleithiau, Franklin D. Roosevelt, ddatganiad enwog:

‘Yn nyddiau’r dyfodol, y ceisiwn eu diogelu, edrychwn ymlaen at fydd a fydd yn seiliedig ar bedwar rhyddid sy’n hanfodol i ddynolryw.

Y cyntaf yw rhyddid llafar a mynegiant – ym mhobman drwy’r byd.

Yr ail yw rhyddid pawb i addoli Duw fel y myn – ym mhobman drwy’r byd.

Y trydydd yw rhyddid rhag eisiau – sef, yn nhermau’r byd, dealltwriaeth economaidd a fydd yn sicrhau i drigolion pob cenedl fywyd iach ar adeg o heddwch – ym mhobman drwy’r byd.

Y pedwerydd yw rhyddid rhag ofn – sef, yn nhermau’r byd, leihau nifer yr arfau rhyfel ledled y byd i’r fath raddau a gyda’r fath drylwyredd na fydd yr un genedl yn medru ymosod yn gorfforol ar ei chymydog – yn unman drwy’r byd’.

Datblygwyd y syniadau hyn yn y *Datganiad Cyffredinol o Hawliau Dynol* a fabwysiadwyd ac a gyhoeddwyd gan Gynulliad Cyffredinol y Cenhedloedd Unedig yn 1948 ac a soniai am yr angen i ‘hyrwyddo cynnydd cymdeithasol a gwell safon byw gyda mwy o ryddid’ a ‘hyrwyddo parchu a chadw’n gyffredinol hawliau dynol a rhyddid sylfaenol’.

Rhyddid *i wneud* rhyw bethau neu ryddid *rhag* rhyw bethau yw ‘Pedwar Rhyddid’ Franklin D. Roosevelt (gweler y blwch uchod). Daeth y dulliau hyn o ddeall rhyddid yn rhan ddofn o’n diwylliant a’n ffordd o fyw, er y gallem yn hawdd feddwl, drigain mlynedd yn ddiweddarach, mai dyheadau nas cyflawnwyd ydynt. Bu gan Gristnogion ac eglwysi ledled y byd ran flaenllaw yn tynnu sylw atynt ac yn ymdrechu i sicrhau eu gweithredu’n ymarferol ac, os oedd hynny’n addas, yn gyfreithiol, yn enwedig mewn perthynas a ‘rhyddid crefyddol’.¹ Ond a oes gan yr Efengyl ryw beth ychwanegol i’w ddweud am ‘ryddid’?

PA RYDDID?

Ystyriwch y ddau achos hyn:

- (a) Bu sawl enghraifft yn ddiweddar o Gristnogion yn y DU a waharddwyd rhag gwisgo croes yn y gweithle yn herio’r gwaharddiad mewn tribiwnlysoedd neu lysoedd barn ar sail rhyddid crefyddol. Un achos o’r fath ym mis Ebrill 2010 oedd achos nyrs o Gaerwysg a symudwyd i swydd wrth ddesg wedi iddi wrthod tynnu ei chroes yn y gweithle. Fe gollodd hi achos o anffafiaeth yn erbyn ei chyflogwyr pan ddadleuodd fod y gwaharddiad ar wisgo croes yn ei rhwystro rhag mynegi ei chred grefyddol. Dywedodd ei fod yn “ddiwrnod du iawn” i Gristnogion yn y gweithle ac nad oedd “y gyfraith fel pe bai o blaid Cristnogaeth” ac y byddai penderfyniad y llys yn peri i Gristnogion deimlo eu bod “dan ormes”. (Gwefan BBC Dyfnaint, 7 Ebrill 2010)
- (b) Ym mis Chwefror 2010 cyhoeddodd Cyngor Dinas Westminster ei fod am wahardd cysgu ar y strydoedd, yn enwedig o gwmpas Cadeirlan Westminster, a gwahardd eglwysi a mudiadau crefyddol rhag gosod ceginau cawl i bobl ddigartref yno. Yn ôl un Cynghorydd: “Does dim lle i geginau cawl yn yr unfed ganrif ar hugain ac nid yw’n iawn nac yn urddasol bwydo pobl ar y strydoedd. Yn wir, y mae gosod ceginau cawl ar strydoedd Westminster yn annog pobl i gysgu ar strydoedd canol Llundain, ac

y mae hynny'n beryglus" (*Daily Telegraph*, 27 Chwefror 2010). Ymateb un eglwys oedd: "Bûm yn newynog a rhoesoch fwyd imi – nes i'r Cyngor eich rhwystro".

Pa achos, yn eich barn chwi, yw'r bygythiad mwyaf i Gristnogion a'u rhyddid?

ASTUDIO'R BEIBL

Edrychwn yn awr ar beth sydd gan y Beibl i'w ddweud am 'ryddid' neu 'fod yn rhydd'.

Yna dywedodd Iesu wrth yr Iddewon oedd wedi credu ynddo, "Os arhoswch chwi yn fy ngair i, yr ydych mewn gwirionedd yn ddisgyblion i mi. Cewch wybod y gwirionedd, a bydd y gwirionedd yn eich rhyddhau." Atebasant ef, "Plant Abraham ydym ni, ac ni buom erioed yn gaethweision i neb. Sut y gelli di ddweud, 'Fe'ch gwneir yn rhyddion?'" Atebodd Iesu hwy, "Yn wir, yn wir, rwy'n dweud wrthych fod pob un sy'n cyflawni pechod yn gaethwas i bechod. Ac nid oes gan y caethwas le arhosol yn y tŷ, ond y mae'r mab yn aros am byth. Felly os yw'r Mab yn eich rhyddhau chwi, byddwch yn rhydd mewn gwirionedd. Rwy'n gwybod mai plant Abraham ydych. Ond yr ydych yn ceisio fy lladd i am nad yw fy ngair i yn cael lle ynoch. Yr wyf fi'n siarad am y pethau yr wyf wedi eu gweld gyda'm Tad, ac yr ydych chwi'n gwneud y pethau a glywsoch gan eich tad."

Ioan 8: 31-38

Dywed Iesu yma mai'r 'gwirionedd' fydd yn rhyddhau ei wrandawyr. Yn Efengyl Ioan nid set o ddatganiadau neu syniadau haniaethol a rhesymegol am y byd ac am Dduw yw'r 'gwirionedd' ond, yn hytrach, 'yr hyn sy'n bod mewn difrif' – yr hyn y mae'n rhaid ymdopi ag ef yma ac yn awr, hyd yn oed os nad ydych yn sylweddoli hynny. Wrth gwrdd â Iesu a gwrando arno, caiff y bobl eu herio i weld ynddo realiti *Duw* yn bresennol ac yn weithredol fel Tad, a Iesu ei hun fel Mab Duw. Felly, y 'gwirionedd' sy'n rhyddhau yw bod Duw yn Iesu, yma ac yn awr, yn gwahodd pobl i fywyd newydd o gymundeb ag ef trwy ymddiried ac ufuddhau. Y mae'r bywyd newydd hwn gyda Duw yn rhyddhau pobl o fod yn gaeth i 'bechod' – hunan-gaethiwed – math o gaethwasiaeth nad yw rhai o'r gwrandawyr yn ymwybodol ohono am eu bod yn tybio eu bod eisoes yn 'rhydd' am eu bod yn deyrngar i'w traddodiad crefyddol a chenedlaethol ac nid i ymerodraeth Rufain a oedd wedi meddiannu'u gwlad. Y mae arwyddocâd arbennig i eiriau Iesu yng nghyd-destun yr hen fyd. 'Pan fyddai mab yn etifeddu eiddo'i dad, yr oedd ganddo hawl i ryddhau caethweision ei dad. Byddai Iesu'n mynd i mewn i'w etifeddiaeth fel Mab Duw trwy ei groeshoeliad a'i esgyniad. Gallai yn wir ryddhau ei wrandawyr; gallai roddi iddynt wir ryddid – rhyddid oddi wrth bechod'².

Cwestiwn: A ydych yn wir yn meddwl bod ffydd yn Nuw yn dod â rhyddid i chwi? Os felly, pam y cysylltir ffydd mor aml heddiw ag anoddefgarwch, culni a thraddodiadau ystyfnig?

I ryddid y rhyddhaodd Crist ni. Safwch yn gadarn, felly, a pheidiwch â phlygu eto i iau caethiwed. Fe'ch galwyd chwi, gyfeillion, i ryddid, ond yn unig peidiwch ag arfer eich rhyddid yn gyfle i'r cnawd; yn hytrach trwy gariad byddwch yn weision i'ch gilydd. Oherwydd y mae'r holl Gyfraith wedi ei mynegi'n gyflawn mewn un gair, sef yn y gorchymyn, "Câr dy gymydog fel ti dy hun." Ond os cnoi a darnio'ch gilydd yr ydych, gofalgwch na chewch eich difa gan eich gilydd. Dyma yr wyf yn ei olygu: rhodiwch yn yr Ysbryd, ac ni fyddwch fyth yn cyflawni chwantau'r cnawd. Oherwydd y mae chwantau'r cnawd yn erbyn yr Ysbryd, a chwantau'r Ysbryd yn erbyn y cnawd.

Y maent yn tynnu'n groes i'w gilydd, fel na allwch wneud yr hyn a fynnwch. Ond os ydych yn cael eich arwain gan yr Ysbryd, nid ydych dan gyfraith. Y mae gweithredoedd y cnawd yn amlwg, sef puteindra, amhurdeb, anlladrwydd, eilunaddoliaeth, dewiniaeth, cweryla, cynnen, eiddigedd, lldio, ymgiprys, rhwygo, ymbleidio, cenfigennu, meddwi, cyfeddach, a phethau tebyg. Yr wyf yn eich rhybuddio, fel y gwneuthum o'r blaen, na chaiff y rhai sy'n gwneud y fath bethau etifeddu teyrnas Dduw.

Galatiaid 5.1, 13-21

Y mae Paul, fel Ioan, yn gweld y bywyd newydd yng Nghrist fel bywyd o ryddid.

Yn ôl un o ysgolheigion y Testament Newydd:

'Ildio ufudd ffydd i "ras" Duw, derbyn croes Crist, yw ildio ein hen ddealltwriaeth ddynol ohonom ein hunain, lle y bydd pawb yn byw "iddo'i hun", yn ceisio byw trwy ei nerth ei hun ac felly'n mynd dan draed pechod a marwolaeth a cholli'i hun. Y mae "ffydd" – "ufudd-dod drwy ffydd" – yn ein rhyddhau oddi wrth y pethau hyn. Y ddealltwriaeth newydd a roddir drwy "ffydd" yw *rhyddid*, lle y mae'r credadun yn cael bywyd ac felly'n ei gael ei hun. Daw'r rhyddid hwn o'r ffaith nad yw'r *credadun*, a "brynwyd", yn *perthyn mwyach "iddo'i hun"*. Nid yw mwyach yn pryderu amdano'i hun, nac am ei fywyd ei hun, ond mae'n gadel i'r pryder hwn fynd ac yn ildio'i hun i fod yn eiddo Duw (neu'r Arglwydd) a byw iddo.'³ (Rudolf Bultmann)

Ond fel y pwysleisia Paul, nid rhyddid i 'wneud yr hyn a fynnoch' mo'r rhyddid hwn, ac yn sicr nid cyfle mohono i hunanfaldod ('gweithredoedd y cnawd'), ond 'byddwch yn weision i'ch gilydd'. Yn rhyfedd ddigon, felly, y mae'r rhyddid a ddaw drwy ffydd yn arwain at fath newydd o 'gaethwasiaeth', sef bod yn gaeth i gariad Crist ac wedi ein galluogi gan yr Ysbryd. Cydnabu addoliad Cristnogol hyn ers yn gynnar iawn. Er enghraifft, y mae'r weddi hynafol a ganlyn o Lyfr Cymun Gelasius (8^{fed} ganrif) yn adleisio geiriau Awstin Sant, a welir hefyd yn ail golect y bore yn y *Llyfr Gweddi Gyffredin*:

Arglwydd Dduw, Goleuni pob meddwl sy'n d'adnabod, Bywyd pob enaid sy'n dy garu a nerth pob myfyrdod sy'n dy geisio, cynorthwya ni i'th wir adnabod fel y gallwn dy wir garu, ac i'th garu fel y gallwn dy lwyr wasanaethu di y *mae dy wasanaethu yn rhyddid perffaith*.

Neu ystyrier y pennill hwn gan y Presbyteriad Albanaidd George Matheson (1842-1906):

*Make me a captive, Lord,
And then I shall be free;
force me to render up my sword,
and I shall conqueror be.*

A allwch chwi feddwl am emynau, cerddi, gweddiâu etc sy'n mynegi syniadau tebyg?

Cwestiwn: Mae Paul yn rhagdybio y gellir tynnu llinell glir rhwng rhyddid cariad a rhyddid 'y cnawd' (neu 'hunanfaldod'). A ydych yn cytuno? A sut y byddai hyn yn gweithredu yn ein cymdeithas brynwriaethol ni lle y rhoddir gwerth ar y 'rhyddid i ddewis' ac y gellir dadlau bod ein heconomi'n dibynnu ar 'ddewis beth a fynnaf'?

Byddai rhai'n dadlau mai myth yw'r 'rhyddid i ddewis' a gynigia'r farchnad, mai ei hystyriaethau hi, nid ein hanghenion ni, sy'n pennu pa ddewisiadau sydd ar werth a bod hysbysebu ystrywgar yn rhoi pwysau arnom i 'ddewis' heb benderfynu drosom ein hunain. Ym mis Medi 2011 dywedodd adroddiad gan UNICEF fod rhieni'n teimlo'n ddiymadferth oherwydd pwysau prynwriaeth – 'bwlio brand' – ar eu plant. 'Golygai ofn peidio â bod â'r math iawn o esgidiau hyfforddi neu declynnau electronig i'r plant fod rhieni yn y DU, yn enwedig y rhai a oedd ar incwm isel, yn teimlo bod yn rhaid iddynt brynu'r nwyddau hyn, hyd yn oed pe golygai hynny fynd i ddyled.' Dywed yr adroddiad fod rhieni'n teimlo 'cymhelliad' i brynu – er eu bod yn gwybod bod llawer o'r gwario'n ddibwynt.

Yn ôl un ymgyrhydd dros gyfiawnder economaidd a masnach deg:

'Datblygodd ein cymdeithas syniadau am ryddid sy'n cynnwys caniatáu i gwmnïau rhyngwladol y fath ryddid ariannol nes eu bod yn osgoi, ar raddfa enfawr, talu trethi. Amcangyfrifa Cymorth Cristnogol fod osgoi talu trethi yn costio i wledydd tlawd UD\$160 biliwn bob blwyddyn. Y mae hyn unwaith a hanner yn fwy na'r gyllideb gymorth fyd-eang. Bydd cwmnïau'n symud eu helw i hafanau trethi, fel Ynysoedd y Sianel, ac felly'n osgoi talu'r trethi sydd arnynt i'r gwledydd lle y'i gwnaed, a'r gwledydd hynny'n aml ymhlith y rhai tlotaf yn y byd. Rhydd yr hafanau trethi gyfrinachedd ariannol iddynt, a'r canlyniad yw amddifadu cymunedau tlawd o'r addysg, y gofal iechyd, y dŵr glân a'r glanweithdra y mae cymaint o'u hangen arnynt. Y mae llywodraeth gwledydd fel Cenia a Bolifia yn methu â chasglu digon o drethi i ddarparu'r angenrheidiau hyn i'w pobl. Y mae prynwyr ledled y byd yn elwa ar y ffaith bod cynnyrch cwmnïau fel Unilever a Vodafone ar gael mor rhad iddynt, heb sylweddoli bod y rhyddid hwn yn costio'n ddrud mewn bywydau dynol.'

Atebodd Iesu, "Yr oedd rhyw ddyn yn mynd i lawr o Jerwsalem i Jericho, a syrthiodd i blith lladron. Wedi tynnu ei ddillad oddi amdano a'i guro, aethant ymaith, a'i adael yn hanner-marw. Fel y digwyddodd, yr oedd offeiriad yn mynd i lawr ar hyd y ffordd honno; pan welodd ef, aeth heibio o'r ochr arall. Yr un modd daeth Lefiad hefyd at y man; gwelodd ef, ac aeth heibio o'r ochr arall. Ond daeth teithiwr o Samariad ato; pan welodd hwn ef, tosturiodd wrtho. Aeth ato a rhwymo ei glwyfau, gan arllwys olew a gwin arnynt; gosododd ef ar ei anifail ei hun, a'i arwain i lety, a gofalu amdano. Trannoeth tynnodd ddau ddarn arian allan a'u rhoi i'r gwesteiwr, gan ddweud, 'Gofala amdano. Os byddi wedi gwario rhywbeth dros ben, fe dalaf fi yn ôl iti pan ddychwelaf.' Prun o'r tri hyn, dybi di, fu'n gymydog i'r dyn a syrthiodd i blith lladron?" Meddai ef, "Yr un a gymerodd drugaredd arno." Ac meddai Iesu wrtho, "Dos, a gwna dithau yr un modd."

Luc 10:30-37

Mae hon yn stori mor adnabyddus – rhy adnabyddus, fe allasem feddwl, i ddysgu dim byd newydd inni. Y tro hwn, fodd bynnag, ystyriwch hi'n astudiaeth o wahanol ddulliau o ddeall 'rhyddid'. Dewiswch rywun o'ch grŵp i gynrychioli'r offeiriad, y Lefiad a'r Samariad, a dau neu dri i gynrychioli'r lladron. Gyda'i gilydd byddant yn banel, a bydd pob un yn ei dro yn esbonio'i ran yn y stori o safbwynt ymarfer ei 'ryddid' fel bod dynol. Bydd pob un yn dechrau ei esboniad â'r geiriau: 'Fel bod dynol rhydd sy'n credu mewn rhyddid ...' Ond gofalconch fod rhywun yn rhoi safbwynt y sawl a ysbeiliwyd fel y sylw olaf ar 'ryddid'!

Cwestiwn: Os gellir cyfiawnhau popeth bron yn enw 'rhyddid', pa werth sydd i'r gair?

CARIAD – RHYDDID CHWYLDROADOL?

Gadewch inni edrych eto ar ddatganiad Bonhoeffer mewn pregeth yn 1932 – y cymerwyd darn ohono'n bennawd i'r cwrs hwn:

'Bod yn rhydd yw bod mewn cariad, bod yng ngwirionedd Duw. Y sawl sy'n caru am iddo gael ei ryddhau gan wirionedd Duw yw'r person mwyaf chwyldroadol ar y ddaear.'

Cwestiynau: Ni fyddwn fel rheol yn cysylltu 'caru' â bod yn 'chwyldroadol'. Felly, pa agweddau a rhagdybiaethau y mae Bonhoeffer yn eu herio yma? A allwch feddwl am bobl – yn enwedig rhai yr ydych yn eu hadnabod neu sy'n byw yn eich cymuned – a fu'n 'chwyldroadwyr cariadus'? Sut yr oedd pobl yn ymateb iddynt?

Yn haf 1939, a rhyfel yn nesáu yn Ewrop, roedd Dietrich Bonhoeffer yn yr Unol Daleithiau. Aethai yno ar wahoddiad cyfeillion yn America a wyddai am y peryglon a wynebai yn yr Almaen Natsiaidd, fel gwrthwynebydd i Hitler ac un y gellid ei orfodi i'r fyddin. Gwyddai ef ei bod yn fraint bod yng 'ngwlad y bobl rydd' ond penderfynodd yn fuan y byddai'n rhaid iddo ddychwelyd i'r Almaen. Fel yr eglurodd wrth gyfaill yn America:

Rhaid imi fyw drwy'r cyfnod anodd hwn yn ein hanes cenedlaethol gyda Christnogion yr Almaen. Ni fydd gennyf hawl i gyfranogi yn y gwaith o ailadeiladu bywyd Cristnogol yr Almaen ar ôl y rhyfel heb imi gyfranogi gyda'm pobl yn nhreialon yr amser hwn. Yr oedd fy mrodyr yn Eglwys Gyffesiadol yr Almaen am imi fynd. Fe all eu bod hwy yn iawn i'm hannog, ond doedd hi ddim yn iawn i mi gytuno. Rhaid i bawb wneud penderfyniad fel hwn drosto'i hun. Bydd Cristnogion yr Almaen yn wynebu'r dewis ofnadwy o ewyllysio gorchfygu eu cenedl fel y bo'r gwareiddiad Cristnogol fyw, neu ewyllysio buddugoliaeth i'w cenedl a marw o'n gwareiddiad. Mi wn i pa un yw fy newis i; ond ni allaf wneud y dewis hwnnw mewn diogelwch.⁴

Penderfynodd Bonhoeffer adael 'gwlad y bobl rydd' a mynd adref i fyw dan unben. A oedd yn troi ei gefn ar ryddid neu'n rhoi ystyr newydd i ryddid?

Sut y byddai hynny'n cyfateb i'r diffiniadau geiriadur a roddwyd uchod?

Yn yr wythnosau sydd i ddod, byddwn yn ystyried pedwar pennill cerdd Bonhoeffer, 'Gorsafoedd ar y Ffordd i Ryddid': Disgyblaeth, Gweithredu, Dioddef, Marw. Fe'n gwahoddir i weld y rhain fel sialensiau yn ein bywydau sydd hefyd yn ein galluogi i fynd i mewn i'r rhyddid a fwriada Duw i'w blant ac sydd, yn anad dim, yn rhodd gan Iesu.

PETHAU I'W GWNEUD

Lluniwch weddi am 'ryddid' i'w defnyddio gennych chwi eich hun, eich grŵp neu eich eglwys gydol y Garawys hwn.

Daliwch i chwilio am ddatganiadau yn y cyfryngau sy'n dangos sut yr ystyrir 'ryddid' heddiw, a dangoswch y datganiadau hyn i'ch grŵp gydol y cwrs.

¹ Gweler John Nurser, *For All Peoples and All nations. Christian Churches and Human Rights* (WCC 2005).

² John Marsh, *The Gospel of Saint John* (Penguin 1968), t.363.

³ Rudolf Bultmann, *Theology of the New Testament Vol I*, (SCM 1952), t.330 ac yn dilyn.

⁴ Gweler Eberhard Bethge, *Dietrich Bonhoeffer* (Fortress Press 2000), t.655.